| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Rhagfyr 4ydd 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith / Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones – Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Swyddogaeth Pencampwyr** |

---

**1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?**

Gofynnir i'r Cyngor Llawn benodi Aelodau sydd i weithredu fel Pencampwyr am y cyfnod yma yn y swydd, yn y meysydd canlynol:

- Pencampwr Pobl Hŷn
- Pencampwr Digartrefedd
- Pencampwr Gofalwyr
- Pencampwr Anableddau Dysgu

**2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?**

Mae'r swyddogaethau uchod wedi eu cydnabod yn ffurfiol gan Gyfansoddiad y Cyngor. Mae'n ofyniad Llywodraeth Cymru hefyd fod Pencampwyr yn cael eu penodi mewn meysydd arbennig.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cyngor yn gwneud y penodiadau canlynol: -

(1) Pencampwr Pobl Hŷn
(2) Pencampwr Digartrefedd
(3) Pencampwr Gofalwyr
(4) Pencampwr Anableddau Dysgu

Mae CVs yr Aelodau hynny sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer penodiad wedi eu cyflwyno i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a fydd yn eu cylchredeg cyn cyfarfod y Cyngor.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae swyddogaeth Pencampwr yn yr awdurdod yma wedi esblygu o un penodiad Pencampwr dros Bobl Hŷn a ddeilliodd o'r canllawiau yn y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cymru, y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru fod â Phencampwyr felly.

Ers hynny mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymestyn cwmpas Pencampwyr i feysydd eraill, weithiau o ganlyniad i gyfarwyddyd Aelodau, neu gan fentrau allanol. Beth bynnag, mae'r Cyngor yn ei adolygiad diweddar o'i Gyfansoddiad, ym mharagraff 2.6 Erthygl 2, yn awr yn cydnabod yn ffurfiol bwysigrwydd swyddogaeth Pencampwyr mewn meysydd penodedig, ac o ganlyniad yn mewnosod y swyddogaeth yma o fewn y Cyfansoddiad.

Nid yw'r dull o benodi Pencampwyr wedi ei osod mewn cyfraith, a bydd i fyny i bob awdurdod lleol ystyried y ffordd orau i gyflawni hyn yn lleol. Mae Cyfarwyddyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar benodi Pencampwyr dros Bobl Hŷn yn datgan fod 'llawer yn ei ystyried yn bwysig fod y Pencampwr yn seiliedig ar lefel cabinet, lle bydd awdurdodau lleol yn ei ystyried i fod felly, i sicrhau bod materion pobl hŷn yn cael eu nodi ar y lefelau uchaf. Fodd bynnag, nid felly y bydd hi bob tro ac mae sawl awdurdod lleol wedi mabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol, lle bydd hynny'n cael ei deilwra'n well ar gyfer anghenion lleol.

Yn hanesyddol, agwedd Cyngor Sir Ddinbych oedd gofalu bod yr aelod mwyaf priodol yn cael ei benodi i rôl y Pencampwr priodol. Mewn trafodaethau blaenorol am Bencampwyr, bu Aelodau'n awyddus i weld disgrifiad swydd eglur ar gyfer Pencampwyr a hynny'n cael ei gytuno a'i fabwysiadu ac mae'n mynegi sut y gellir ymgymryd â'r swyddogaeth yn yr awdurdod arbennig yma. Mae disgrifiadau swydd drafft ar gyfer y swyddogaethau a nodwyd yn y Cyfansoddiad wedi eu mynegi yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn ac maen nhw'n ceisio darparu eglurder a chysondeb ynglŷn â swyddogaeth Pencampwr yn Sir Ddinbych. Fe gymeradwywyd y swyddogaethau gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod diwethaf ar Dachwedd 6ed 2012 gyda mynegiannau o ddiddordeb a CVs i'w cyflwyno erbyn Tachwedd 16eg 2012.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r swyddogaethau'n cyfrannu tuag at Gynllun Mawr y Cyngor a Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Sir Ddinbych 2025.

## 6. Faint fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

Does yna ddim oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad yma.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd?

Fe ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grŵp ac roedden nhw o blaid penodi'r pedwar Pencampwr a nodwyd yn yr argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yma ac i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol edrych yn fanwl ar briodoldeb penodi Pencampwyr ar gyfer diddordebau eraill. Penderfynodd y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod diwethaf y dylid gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ystyried a oedd yna rinwedd mewn penodi Pencampwyr ar gyfer y diddordebau hynny a nodwyd gan aelodau yn ystod y ddadl ac i ddarparu eglurhad ar y swyddogaethau hynny os y'u cymeradwyir yn addas i'w mabwysiadu.

Fe ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac maen nhw wedi mynegi pryder fod yna bosibilrwydd o ddryswch a/neu ddyblygu rhwng swyddogaethau Pencampwyr ac Aelodau Arweiniol pan fydd y materion i'w cefnogi'n dod o fewn cylch gwaith Aelod Arweiniol unigol.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Does yna ddim costau ychwanegol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r penodiadau.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes yna unrhyw risgiau wedi eu nodi gyda bwrw ymlaen â'r penodiadau.

## 10. Grym i wneud y penderfyniad

Erthygl 2.6 Cyfansoddiad y Cyngor